# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd E D Winstanley** **Ward: Corneli**

**Plaid: Y Blaid Lafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

| |
|---|
| **Y Rôl a Chyfrifoldebau**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Corneli** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.<br><br>Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:<br><br>Y [Cynghorydd Elaine Winstanley] |
| **Gweithgareddau Etholaethol**<br><br>Yn ogystal â bod yn llywodraethwr ac is-gadeirydd Afon y Felin, deuthum hefyd yn llywodraethwr Ysgol y Ferch o'r Sgêr. Rwy'n mwynhau ymweld â'r ysgolion a gweld gweithgareddau'r plant, mwynheais yn arbennig y cyngerdd carolau yng Nghapel Pisgah a oedd yn cynnwys ysgolion lleol a Chôr Meibion Mynyddcynffig.<br><br>Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd ar y cyd â'r Cynghorydd Richard Granville, a nifer o aelodau'r Cabinet ac rydym wedi cydweithio i godi materion gyda'r awdurdodau perthnasol.<br><br>Roeddwn yn falch iawn o ymuno â'r dathliadau a gynhaliwyd gan Eglwys Fethodistaidd Gogledd Corneli wrth iddynt ddathlu 100 mlynedd.<br><br>Rwyf wedi mynychu pob cyfarfod Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gliydd (PACT) yn rheolaidd sy'n cael eu trefnu gan yr heddlu ac wedi mynychu'r cyfarfodydd Trechu Troseddau gyda'n Gilydd a drefnir gan breswylydd lleol mewn ymateb i ymchwydd o droseddau yn ein cymuned. Rwyf hefyd wedi rhannu ffyrdd gwell o roi gwybod am droseddau i drigolion ac wedi cysylltu â'r heddlu ar ran preswylwyr ar sawl achlysur. |

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ynghyd â'r Cyngor Cymuned, trefnon ni ddigwyddiadau ar gyfer Corneli.

Am y tro cyntaf, cynhaliom wasanaeth coffa yn ein carreg goffa newydd, gyda chlerigwyr, cyn-filwyr a chynrychiolwyr dinesig lleol.

Fel cadeirydd y cyngor cymuned, mynychais ein digwyddiad Nadolig poblogaidd iawn, ac roeddwn wrth fy modd yn mynychu a dyfarnu gwobrau i enillwyr Cystadleuaeth Lliwio’r Nadolig.

Yn gynharach yn y flwyddyn cyflwynais wobrau yn Sioe Amaethyddol Corneli a Chylch Chwarae Cymunedol Gogledd Corneli.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Fel dysgwr Cymraeg brwd rwyf wedi parhau i gefnogi digwyddiadau Cymraeg fel Noson Cawl a Chân, a Bore Coffi lleol, yn ogystal â siarad yn y siambr i hyrwyddo'r Gymraeg.

**Y Cynghorydd E D Winstanley:** **Dyddiad: 28 Mehefin 2024**